## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun, ar Ddydd Mercher, 22 Mawrth 2000 am 10.00 a.m.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr R.W. Hughes (Is Gadeirydd), J. Butterfield, D.W. Davies, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, N.J. Hughes, G. Jones, M.M. Jones (dirprwy ar ran M.Ll. Davies), N.H. Jones, R.J.R. Jones, G.M. Kensler (dirprwy ar ran E.W. Williams), S.Kerfoot Davies, (dirprwy ar ran F.D. Jones), A.E. Roberts (dirprwy ar ran R.E. Jones), F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, P.O. Williams, a R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddol, Prif Swyddog Cynllunio (Gogledd), Prif Swyddog Cynllunio (De), a Swyddog Gweinyddol (G. Butler)

## CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN

Y Cynghorwyr M.Ll. Davies, F.D. Jones, R.E. Jones, K.P. Stevens ac E.W. Williams.

### 981.. Y CYNGHORYDD F.D. JONES

Gan fod y Cadeirydd, y Cynghorydd F.D. Jones, yn parhau yn absennol, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd, y Cynghorydd R.W. Hughes.

### 982. MATER BRYS

Hysbysodd y Cadeirydd y cyfarfod am yr eitem ganlynol y dylid ei ystyried fel mater brys, yn ei barn hi, yn unol ag Adran 100(B)(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972:-

MATER GORFODAETH, FFORDD FICTORIA, Y RHYL

### 983. CEISIADAU AM GANIATAD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhifo'r cynlluniau a gyflwynwyd yr oedd angen i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd, a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod caniatâd fel bo'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Caniataol Cyffredinol), Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990, i ddatblygiadau arfaethedig y cynlluniau canlynol yn unol â'r amodau wedi eu rhifo yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/1999/0939/PS | Dileu'r amod preswyl amaethyddol a nodwyd yn flaenorol o dan rif côd caniatâd cynllunio 3/3895 (Cyngor Dosbarth Glyndwr) yn The Willows, Ffordd Caergybi, Llangollen. |

| | |
|---|---|
| 15/1999/0829/PF | (Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyd-bwyllgor Ymgynghorol AOHNE Bryniau Clwyd).<br>Datblygu gorsaf radio sylfaen ar dwr telathrebu sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys 3 antena croes begynol, dysgl gyfathrebu a chaban offer ar lefel y ddaear yn Nhwr yr Heddlu, Boncyn y Waen, Grogen, Graigfechan, Ruthin. |
| 15/2000/0076/PF | (Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl)<br>Newid manylion yr annedd adnewyddol a ganiatawyd yn flaenorol o dan gôd rhif 15/649/96/PF yn Foel Las, Ffordd Eryrys, Mynydd Du, Yr Wyddgrug. |
| 27/2000/0027/PF | (Datganodd y Cynghorydd Tobin fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y mater).<br>Adeiladu dau floc stablau ar safle hen Fyngalo Pentrefelin, Pentrefelin, Llangollen.<br>YN UNOL â'r amodau diwygiedig canlynol, rhifau 2, 3, 6 ac amod newydd rhif 7.<br>2. Ni fydd haen allanol arfaethedig y waliau yn gerrig mân fel y nodwyd ond bydd wedi ei rendro neu'n rendr garw, a rhaid cytuno ar fath, gorffeniad a lliw y gwaith yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y datblygiad.<br>3. Cyn i'r adeiladau a ganiateir trwy hyn gael eu defnyddio, dylai'r to gael ei baentio'n ddu a'i gadw'r lliw hynny bob amser wedi hynny.<br>6. Y bydd yr adeiladau a ganiateir trwy hyn yn cael eu defnyddio fel stablau i geffylau'r ymgeisydd yn unig, ac ni cheir eu defnyddio ar unrhyw adeg fel stablau llog na chanolfan marchogaeth ceffylau.<br>7. Ni chaniateir defnyddio unrhyw un o'r adeiladau nes bo'r manylion am y dull gwaredu gwastraff wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu hystyried, a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig, a chwblhau'r cynllun yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.<br>RHESWM - Er bydd mwynderau preswylwyr y tai gerllaw. |
| 27/2000/0022/PF | Newid stordy/garej domestig i ffurfio un annedd yn y garej/stordy wrth ymyl Can y Gwynt, Llantysilio, Llangollen. |
| 42/2000/0084/PF | (Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Cymuned Dyserth)<br>Newid defnydd siop dosbarth A1 i ffurfio estyniad i annedd presennol yn 1 Adeilad Hiraddug, Stryd Fawr, Dyserth. |
| 43/2000/0098/TP | (Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru)<br>Tocio arfaethedig 15 o goed aethnen ddu sy'n dod o dan Orchymyn Cadwraeth Coed Bwrdeistref Rhuddlan (White Rose, Prestatyn) ar dir yn Queens Court, White Rose Close, Prestatyn.<br>YN UNOL â'r amod newydd canlynol, rhif 2.<br>2. Y bydd y gwaith tocio coed a ganiateir trwy hyn yn cael ei gyflawni rhwng y cyfnod 1 Hydref yn unrhyw flwyddyn a 30 Ebrill y flwyddyn ganlynol.<br>RHESWM - I osgoi amharu ar adar sy'n bridio neu ystlumod yn clwydo. |

43/2000/0112/PF

(AR YR AMOD na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach erbyn 31 Mawrth 2000 yn ymdrin â materion cynllunio na chawsant eu cynnwys yn yr adroddiad eisoes).
(Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan A Mack, 11 Parc Aberconwy. (D.S. Canfyddwyd fod dau lythyr sylwadau yn rhai ffug (yn cynnwys un yn honni ei fod gan K Millward, 8 Parc Aberconwy) ac un arall a dderbyniwyd ar ôl ysgrifennu'r adroddiad).
Adeiladu to pig ar annedd to fflat presennol a gosod 4 ffenestr dormer yng ngheudod y to yn 28 Tudor Avenue, Prestatyn.
Mae cyfathrebiaeth a dderbyniwyd wedi awgrymu y gall ystlumod fod yn bresennol ar y safle. Os yw hyn yn wir mae angen bod yn ymwybodol o'r mesurau i'w diogelu yn y Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 1981 - mae'n drosedd lladd, anafu neu amharu ar ystlumod a ganfyddir mewn rhannau o annedd ac eithrio'r ystafelloedd lle mae pobl yn byw.

45/2000/0143/PF

(Yn dilyn ystyried 2 lythyr sylwadau ychwanegol gan y Swyddog Datblygu Economaidd a'r Pennaeth Priffyrdd).
Newid defnydd uned diwydiant ysgafn dosbarth B1 yn gaffi dosbarth A3 yn hen storfeydd y Cyngor, Uned 17 Parc Ffordd Las, Ffordd Las, Rhyl.
(Roedd yr Aelodau canlynol yn dymuno cael cofnod eu bod wedi pleidleisio yn erbyn rhoi caniatâd i'r cais hwn, am resymau cyflogaeth lleol: Y Cynghorwyr P. Douglas, D.W. Davies, J. Butterfield, A.E. Fletcher Williams, F. Shaw.)

46/1999/0902/PO

(Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Tref Llanelwy).
Dymchwel yr adeilad presennol a datblygu 0.05 hectar o dir trwy adeiladu 5 annedd-dy, creu mynedfeydd newydd i gerbydau a darparu lle parcio cysylltiedig (cais amlinellol yn y Royal British Legion, Stryd Luc, Llanelwy.
YN UNOL â'r amod newydd canlynol, rhif 5.
5. Serch darpariaethau rhan 1 atodlen 2 y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, bydd unrhyw garejau cyfannol a nodir yn y manylion a gyflwynir o dan Amod Rhif 1 y caniatâd hwn yn cael eu defnyddio ar gyfer parcio ceir yn unig ac ni chânt eu newid yn lety preswyl.
RHESWM - sicrhau bod parcio oddi ar y stryd digonol yn cael ei ddarparu gan y cynllun, er budd diogelwch y ffordd fawr.

(ii) gwrthod

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 44/1999/0485/PO | (Yn dilyn ystyried 2 lythyr sylwadau ychwanegol gan Gyngor Tref Rhuddlan (yn ymwneud â'r cynlluniau diwygiedig) a'r Pennaeth Priffyrdd). Datblygu 0.59 hectar o dir trwy adeiladu siop nwyddau bwyd a chreu mynediad newydd i gerbydau/cerddwyr (cais amlinellol) ar ran o safle'r hen Thomas Motor Mart, Marsh Road, Rhuddlan, Y Rhyl. AM y rhesymau diwygiedig canlynol, rhifau 1 a 2. 1. Byddai'r siopau nwyddau bwyd arfaethedig yn groes i Bolisïau S2, S7 a S10 Cynllun Lleol Bwrdeistref Rhuddlan a Pholisïau RET1, RET3, RET7 a MDA6 Cynllun Datblygu |

| | |
|---|---|
| | Unedol Cyngor Sir Ddinbych sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd a pholisi cenedlaethol a gynhwysir yng Nghanllawiau Cynllunio (Cymru) - Polisi Cynllunio gan na fyddai'n cynrychioli safle yng nghanol y dref nac ar gyrion y dref ac oherwydd ei faint a'i leoliad byddai'r cynllun arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar ddichonoldeb a hyfywdra canolfannau siopa presennol yn yr ardal.<br>2. Ychwanegu "Polisi G4 Cynllun Strwythur Cyngor Sir Clwyd, a Pholisïau CON1 a 7 Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir Ddinbych sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd".<br>Nodyn i'r Ymgeisydd. Y cynlluniau gafodd eu hystyried gan y Cyngor wrth benderfynu ar y cais hwn yw'r rhai a restrir ar yr hysbysiad penderfyniad hwn ac nid ydynt yn cynnwys y cynlluniau safle a gwedd A4 gafodd eu ffacsio i'r Awdurdod Cynllunio ar 21 Mawrth 2000. |
| 45/1999/0911/PF | Gosod 3 antena deu-begynol dau fand ar bolion ar do, gosod canllaw wedi ei cydbwyso ar ymyl y to ac ysgol gylchog i gyrraedd yr offer ynghyd ag ystafell offer mewnol cysylltiedig yn 133 Stryd Fawr, Y Rhyl.<br>AM y rheswm diwygiedig canlynol:-<br>Yn nodi "anghymathus â lleoliad, ffurf, graddfa, maint a deunyddiau'r adeilad gwreiddiol." |
| 45/1999/0910/LB | Gosod 3 antena deu-begynol dau fand ar bolion ar do, gosod canllaw wedi ei cydbwyso ar ymyl y to ac ysgol gylchog i gyrraedd yr offer ynghyd ag ystafell offer mewnol cysylltiedig yn 133 Stryd Fawr, Y Rhyl.<br>AM y rheswm diwygiedig canlynol:-<br>Yn nodi "anghymathus â lleoliad, ffurf, graddfa, maint a deunyddiau'r adeilad gwreiddiol." |

(*b*) *Gan fod yr Aelodau o blaid caniatau caniatâd cynllunio i'r cais canlynol, dylid cyfeirio'r mater ger bron y Cyngor llawn fel Gwyriad oddi wrth y Polisi yn unol â Chofnod Rhif 5 y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Economaidd ar 15 Chwefror, 1996:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 40/1999/0930/PF | Dymchwel yr annedd presennol ac adeiladu annedd newydd gyda system garthffosiaeth newydd yn Pengwern Bach, Ffordd Nant y Faenol, Bodelwyddan. |

*(c) Serch argymhelliad y Swyddogion, penderfynwyd GWRTHOD caniatâd i'r cais canlynol am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/1999/0931/PF | (Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol o ddeiseb a lofnodwyd gan tua 600 o drigolion).<br>Manylion diwygiedig ynglyn â newid, addasu a chreu estyniad i dy allan a dderbyniodd ganiatâd cynllunio blaenorol ar gyfer datblygiadau twristiaeth/hamdden o dan gôd rhif 26/893/97/PF i ffurfio 10 uned preswyl, 2 annedd (yn ymgorffori cyfleusterau stiwdio), 3 uned llety gwyliau, stablau marchogaeth ac ail-gyfeirio ffordd wasanaethu mewnol yn Fferm Bryn Dethol, Ffordd Caergybi, Llangollen.<br>GWRTHOD am y rhesymau canlynol:- |

1. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw bod y cynlluniau arfaethedig yn cynrychioli newid sylweddol yn y pwyslais o'i gymharu â'r cynllun â chaniatâd cynllunio eisoes ar gyfer datblygiad twristaidd/cyflogaeth ar y safle, i un yn cynnwys datblygiad preswyl newydd, a bod elfennau allweddol ohono yn annerbyniol yn y lleoliad cefn gwlad agored atyniadol mewn Rhwystr Glas ac Ardal Tirlun Eithriadol (Cynllun Lleol Cyngor Dosbarth Glyndwr) ac Ardal Tirlun Arbennig (Cynllun Strwythur Cyngor Sir Clwyd: Newid Cyntaf), yn benodol:

(a) Darparu 6 uned preswyl newydd, sy'n cael eu hystyried yn annerbyniol mewn egwyddor mewn cefn gwlad agored lle nad oes unrhyw angen hanfodol, ac yn groes i Bolisi B8 Cynllun Strwythur Sir Clwyd: Newid Cyntaf.

(b) Ystyrir bod ymestyn y safle y tu hwnt i'r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol, yn enwedig trwy adeiladu unedau preswyl newydd a'r mynedfeydd a llefydd parcio cysylltiedig, y man *menage* mwy ac effaith potensial y datblygiad mewn cysylltiad â defnyddiau preswyl eraill, yn annerbyniol o ran yr effaith weledol ar natur agored y tirlun lleol, sydd wedi ei ddynodi yn Rhwystr Glas, Ardal Tirlun Eithriadol ac Ardal Tirlun Arbennig, ac yn groes i bolisïau H2, H3 a H5 Cynllun Strwythur Sir Clwyd: Newid Cyntaf; a pholisïau L1, L2 a L3 Cynllun Lleol Cyngor Dosbarth Glyndwr.

(c) Gorddatblygu'r safle a maint y datblygiad - ystyrir eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar gymeriad a lleoliad yr Adeiladau Rhestredig a'r Tirlun, yn groes i bolisi G7 Cynllun Strwythur Sir Clwyd: Newid Cyntaf a'r cyngor yng Nghylchlythyr rhif 61/96 y Swyddfa Gymreig yn ymwneud ag adeiladau rhestredig.

(d) Absenoldeb unrhyw gynigion sy'n cysylltu'r datblygiad gydag atgyweirio'r adeiladau rhestredig.

Nodiadau i'r Ymgeisydd: Amgaeir copïau o'r polisïau y cyfeirir atynt yn y rheswm dros wrthod y cais.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn derbyn bod caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer y safle, a gofynnir i chi drafod syniadau eraill ar gyfer y datblygiad wedi eu seilio ar y cynllun defnydd cymysg a gymeradwywyd yn flaenorol yn cynnwys newid ac addasu'r adeiladau presennol.

42/2000/0059/AD

(Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan y Pennaeth Priffyrdd a Chludiant).

Cadw 2 arwydd wedi eu goleuo'n allanol a 4 arwydd polyn baner (cais adolwg) yn Nhy Anglia, Iard yr Orsaf, Ffordd Newmarket, Dyserth.

GWRTHOD am y rheswm canlynol:

Mae'r arwyddion a'r arwyddion polyn baner wedi eu lleoli yn agos at dro mewn pant yn yr A5151 y tu allan i'r ardal adeiledig a byddai'n debygol o dynnu sylw gyrwyr cerbydau ar y briffordd gan amharu ar ddiogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd fawr a byddai'n cynrychioli elfen gor-fasnachol yn yr olygfa wledig yn yr Ardal Tirlun Arbennig hon.

Nodyn i'r Ymgeisydd : Mae'r Awdurdod Priffyrdd yn cynghori bod eu cofnodion yn dangos bod yr arwyddion wedi eu codi o fewn ffiniau'r ffordd fawr fabwysiedig. Mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi gofyn i'r arwyddion gael eu symud oddi ar y ffordd fawr fabwysiedig.

*(ch)* *gohirio'r ceisiadau canlynol am y rhesymau a nodwyd:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/1999/0891/PF | (Yn dilyn ystyried 2 lythyr sylwadau ychwanegol gan NFU Cymru ac ADAS).<br>Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i gaeau chwarae ysgol yn Ysgol Howells, Stryd y Parc, Dinbych.<br>(GOHIRIO ar gais y Swyddog i ganiatáu eglurhad pellach am y defnydd arfaethedig ac i ganiatáu i ADAS ymateb) |

**984.** **CYNLLUNIAU DIWYGIEDIG AR GYFER DATBLYGU FFERM WYNT ARFAETHEDIG YM MOEL LLYN/MOEL RHIWLOG, BRYNTRILLYN, GER PENTREFOELAS - YMGYNGHORIAD GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

(Yn dilyn ystyried llythyr sylwadau ychwanegol gan Gymdethias Eryri).

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar gais cynllunio a gyflwynwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym mis Rhagfyr, 1999, pan ymgynghorwyd â Sir Ddinbych fel Cyngor Sir cyfagos ac yn nodi cefndir y cais; manylion am y cais cyfredol; ystyriaethau cynllunio perthnasol; sylwadau ar y cynnig o ran sut y byddai'n effeithio ar Sir Ddinbych a'i gasgliadau a'i argymhellion.

***PENDERFYNWYD*** *bod Cyngor Sir Ddinbych yn gwrthwynebu'r cais yn chwyrn o ran yr effaith weledol tebygol ar y tirlun lleol ac ar y Parc Cenedlaethol, a'r effaith tebygol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Mynydd Hiraethog.*

(Dylid nodi bod yr Aelodau canlynol wedi atal eu pleidlais ar y mater hwn: Y Cynghorydd P.O. Williams, G. Kensler, N.J. Hughes)

**985.** **DYDDIAD YR YMWELIAD SAFLE**

Gan nad oedd angen ymweld ag unrhyw safleoedd, diddymwyd yr eitem hon.

**986.** **RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig diwygiedig (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn rhestru'r ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo dan awdurdod dirprwyedig rhwng 5 Chwefror, 2000 a 3 Mawrth, 2000.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**987.** **STATWS CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL CYNGOR SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cynghori'r aelodau am statws cyfredol y Cynllun Datblygu Unedol sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd a'i ddefnydd wrth reoli datblygiad.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**988**. **<u>MATER GORFODAETH BRYS</u>**

Parc Busnes Fictoria (y Llaethdy yn flaenorol), Ffordd Fictoria, Y Rhyl

Trwsio ceir heb ganiatâd.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn rhoi manylion am y camau gorfodaeth i'w gweithredu o dan y pwerau Brys a gynhwysir yn y Cynllun Dirprwyo Diwygiedig.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn yr adroddiad er gwybodaeth a diolch i'r Swyddogion am y modd y gwnaethant weithredu ar fyrder i ymdrin â'r mater, ac*

*(b) y dylid monitro unedau eraill yn yr ardal.*

**989. <u>GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

***PENDERFYNWYD****, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y trafodaethau am yr eitemau canlynol ar y sail y gallent gynnwys datgelu gwybodaeth a eithriwyd fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 7 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**990. <u>ARFARNIAD ADAS</u>**

(i) 3/1999/939/PS The Willows, Ffordd Caergybi, Llangollen

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**991. <u>40/1999/930/PF PENGWERN BACH, FFORDD NANT Y FAENOL, BODELWYDDAN</u>**

Mewn ymateb i gwestiynau, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio fod Tystysgrif yn honni caniatau Caniatâd Cynllunio i'r cais uchod wedi ei chyflwyno mewn camgymeriad. Yn dilyn cael cyngor cyfreithiol cadarnhawyd nad oedd y dystysgrif yn ddogfen ddilys ac nad oedd ei chyflwyno wedi dylanwadu ar y canlyniad na'r broses o benderfynu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.

*************